

### Prosiect: Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd, Amaethyddiaeth a Defnydd Tir.

#### Teitl: Cynnig lleoliad i fyfyrwr PhD

*"Dadansoddi'r dystiolaeth, y materion ac effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol ar systemau amaethyddol a defnydd tir yng Nghymru hyd at 2050, i gefnogi gwaith datblygu polisi yn y dyfodol."*

Mae'r Is-adran Amaethyddiaeth a Datblygu Cynaliadwy, ar y cyd ag Uned Tystiolaeth Strategol Llywodraeth Cymru, yn chwilio am fyfyrwr PhD a hoffai fanteisio ar gyfle i ymgymryd â lleoliad yn ei tîm polisi Ffermio i'r Dyfodol. Mae'r tîm polisi Ffermio i'r Dyfodol yn ymdrin â pholisi ar dda byw, Tir Âr, garddwriaeth a ffermio organig a hefyd â pholisïau ehangach ym maes amaethyddiaeth ar leihau allyriadau a dod yn fwy abl i wrthsefyll newid hinsawdd, yn unol â sectorau eraill yng Nghymru sydd am fod yn [sero net erbyn 2050](#).

Mae'r uned tystiolaeth strategol yn gyfrifol am gydlynu cysylltiadau ag arweinwyr polisi a rhanddeiliaid allanol o bob rhan o'r portffolio Newid Hinsawdd a Materion Gwledig er mwyn dadansoddi tystiolaeth am liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac am effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol.

#### Pwrpas y Swydd

Gan weithio yn y tîm Ffermio i'r Dyfodol, gyda chymorth yr Uned Tystiolaeth Strategol, pwrpas y lleoliad yw helpu i ddod o hyd i dystiolaeth a chasglu data am effaith yr hinsawdd ar amaethyddiaeth ac ar ffyrdd eraill o ddefnyddio tir. Bydd angen gweithio gyda grwpiau polisi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol ar ystod o senarios a allai godi yn y dyfodol. Byddant yn ystyried systemau ffermio a newidiadau o ran sut y bydd tir yn cael ei ddefnyddio wrth i'r hinsawdd gynhesu ac yn wyneb cyfnodau amlach o dywydd eithafol.

Bydd y gwaith a wneir gan ddeiliad y swydd hon yn cyfrannu at ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar y cynnydd a wnaed yng Nghymru ar bolisïau i baratoi Cymru ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. [Addasu i newid hinsawdd - Cynnydd yng Nghymru - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd \(theccc.org.uk\)](#). Yn yr adran Tir a Moroedd Gweithio, mae'r adroddiad yn awgrymu mai cyfyngedig yw'r polisïau a'r cynlluniau sydd yn eu lle i sicrhau bod y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth, a physgodfeydd a dyframaeth masnachol yn parhau'n gynhyrchiol wrth i'r hinsawdd newid. Yn ogystal â'r adran ar Dir a Moroedd Gweithio, bydd amaethyddiaeth a'r defnydd a wneir o dir yn effeithio hefyd ar gynlluniau addasu mewn meysydd eraill, yn enwedig yr adrannau ar natur, diogelwch bwyd, a dŵr.

#### Y Tasgau Allweddol

- Cydgyssylltu a sicrhau ansawdd tystiolaeth, gan weithio gyda thimau polisi i nodi anghenion o ran tystiolaeth a sicrhau bod y methodolegau, y gwaith dadansoddi a'r canfyddiadau'n briodol. Mae adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cyfeirio at brinder data ar gyfer datblygu polisi ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- Dadansoddi a modelu – defnyddio ystod o ddata, rhagfynegi ar sail senarios sydd eisoes yn bod, a defnyddio offer GIS i esbonio'r berthynas gymhleth rhwng hinsawdd sy'n newid a systemau amaethyddol a'r defnydd a wneir o dir.
- Ymchwil wrth ddesg – defnyddio dulliau priodol i adolygu'r dystiolaeth (llynyddiaeth neu ddata ystadegol) am bynciau penodol yr ymdrinnir â nhw yn adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd.
- Datblygu opsiynau – nodi camau allweddol i'w cymryd yn y sector amaethyddol, gan wneud hynny yn unol â'r dystiolaeth sydd ar gael a pholisïau ehangach y Llywodraeth, a dadansoddi effeithiau ehangach y camau hynny ar feysydd fel yr economi amaethyddol, yr iaith Gymraeg, diwylliant a bioamrywiaeth.
- Cysylltu a thrafod â rhanddeiliaid – hwyluso trafodaethau a chasglu tystiolaeth a safbwyntiau rhanddeiliaid allanol ac academyddion sy'n gweithio yn y maes. Cysylltu â swyddogion o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd hefyd yn gweithio yn y maes.
- Dogfennaeth y Rhaglen – sicrhau bod dogfennau tystiolaeth a data perthnasol ar gael fel y bo modd mynd ati i ddatblygu polisi ar sail tystiolaeth yn y dyfodol.

Gallai'r tasgau penodol yn y meysydd hyn gynnwys: -



## Lleoliad Hyfforddiant Doethurol ar Bolisi a Thystiolaeth

- Dadansoddi data cymdeithasol, yn benodol, data ar ymddygiad er mwyn nodi goblygiadau, cyfleoedd a risgiau, gan gyfuno'r dystiolaeth a pharatoi adroddiadau cryno/diweddaru tystiolaeth.
- Helpu i greu a modelu senarios, gan weithio gyda'r tîm i ystyried tystiolaeth/haenau data a goblygiadau gofodol.
- Rheoli'r gronfa ddata tystiolaeth ar ran y tîm; bwrw golwg dros lenyddiaeth dechnegol ac allbynnau ymchwil er mwyn nodi canlyniadau ac effeithiau polisiâu, gweithio gyda'r gwasanaethau cyfathrebu i ddatblygu ffyrdd effeithiol o sianelu canfyddiadau ac effeithiau ymchwil allweddol, gan ddefnyddio'r fformat mwyaf priodol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n eang.
- Helpu i adolygu data penodol neu dystiolaeth ar gyfer y prosiectau yn ôl yr angen – e.e. gweithio gyda Ystadegwyr ac Economegwyr arweiniol i ddadansoddi ffynonellau data, gwaith samplu a chanfyddiadau adolygiadau.

Mae'n debygol y bydd deiliad y swydd yn cael cyfle i gyfrannu at feysydd gwaith eraill y mae ganddo/i ddi-ddordeb penodol ynddynt.

### Manylion

<p><b>Y sgiliau gofynnol:</b></p>	<p><b><u>Y Sgiliau Allweddol</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau cryf ym maes ymchwilio a dadansoddi data a phrofiad o drin/trafod data.</li> <li>• Y galli i greu dogfennau cryno sydd wedi'u hysgrifennu'n dda, gan gyflwyno deunydd cymhleth mewn ffurf hygyrch.</li> </ul> <p>Sgiliau rhyngpersonol da a'r gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith proffesiynol, gan weithio ar eich menter eich hun ac arfer proffesiynoldeb, cyfrinachedd ac, yn aml, sensitifrwydd, wrth siarad â chynulleidfaeod gwahanol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>•</li> </ul>
<p><b>Allbynnau:</b></p>	<p>Fel y cytunir arnynt gyda'r rheolwr llinell ac yn unol â'r blaenoriaethau uchod.</p>
<p><b>Y Sefydliad sy'n Cynnig y Cyfle:</b></p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>
<p><b>Dyddiad Dechrau'r Lleoliad:</b></p>	<p>Cyn gynted â phosibl</p>
<p><b>Cyfleoedd Datblygu:</b></p>	<p>Mae'r lleoliad yn gyfle i weld sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio a sut mae polisi yn cael ei ddatblygu ar sail tystiolaeth ar y lefel uchaf. Bydd deiliad y swydd yn gweithio mewn tîm diddorol ac amrywiol, gan gyfrannu at gyflawni mewn maes polisi lle mae Cymru, drwy'r fframwaith deddfwriaethol sydd ganddi, ar flaen y gad yn y DU. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'n annibynnol o fewn y ffiniau a'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Gan weithio'n agos gydag ystod eang o gydweithwyr, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meithrin perthnasoedd gwaith gwerthfawr, yn ehangu ei wybodaeth am lunio polisiâu cyhoeddus ac yn gwella'r sgiliau trosglwyddadwy sydd ganddo/i eisoes.</p> <p>Mae hon yn rôl ddiddorol ac amrywiol, lle bydd y deiliad yn gweithio ar raglen proffil uchel ar draws portffolios Llywodraeth Cymru. Bydd hynny'n caniatáu i'r myfyriwr ennill gwybodaeth a meithrin dealltwriaeth eang am y gwaith polisi a wneir gan Lywodraeth Cymru. Gyda chymorth ei oruchwyliwr yn LIC, bydd disgwyl i'r myfyriwr ysgwyddo'r cyfrifoldeb o reoli a chyflawni ymrwymadau gwaith yn ystod cyfnod y lleoliad.</p>
<p><b>Hyd y lleoliad, ymhle, y</b></p>	<p>Bydd y rôl yn un llawnamser yn y tîm Ffermio i'r Dyfodol, gan weithio'n agos gyda'r Uned Tystiolaeth Strategol. Caiff deiliad y swydd weithio o unrhyw un o swyddfeydd Llywodraeth</p>



## Lleoliad Hyfforddiant Doethurol ar Bolisi a Thystiolaeth

<p><b>trefniadau gweithio a'r amgylchedd gwaith:</b></p>	<p>Cymru neu weithio gartref, a hynny yn unol â'r trefniadau gweithio ar gyfer holl weithwyr Llywodraeth Cymru.</p> <p>Bydd deiliad y swydd yn cael gliniadur er mwyn hwyluso cyswllt rheolaidd ag aelodau'r tîm polisi a'i reolwr llinell, timau polisi eraill a phartneriaid allanol. Oherwydd natur gweithio o bell, bydd y tîm polisi yn sicrhau bod deiliad y swydd yn cael ei gefnogi'n llawn yn ystod y lleoliad, ac yn ymdrechu i sicrhau bod y profiad mor debyg â phosibl i'r profiad o weithio yn rhan o dîm mewn swyddfa.</p> <p>Bydd y lleoliad yn para am gyfnod o 3 mis, a bydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion a nodir ym manyleb y swydd. Mae'n bosibl y bydd opsiwn i estyn y cyfnod am 3 mis arall os bydd tîm y prosiect yn teimlo bod hynny'n briodol, ac os bydd hynny'n gydnaws â'r amserlen ymchwil a bennwyd gan brifysgol deiliad y swydd a threfniadau'r Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol/y Canolfannau Hyfforddiant Doethurol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn sefydliad dwyieithog ac mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn gaffaeliad i'r sefydliad. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg yn ystod lleoliad.</p> <p>Byddwn yn cytuno ar y dyddiad dechrau ar ôl i Lywodraeth Cymru gynnal cliriad diogelwch llwyddiannus.</p>
<p><b>Meini Prawf Ymgeisio</b></p>	<p><b>Dim ond oddi wrth fyfyrwyr cofrestredig y gall Llywodraeth Cymru dderbyn ceisiadau i raglen lleoliadau myfyrwyr PhD.</b></p> <p><b>Rhaid i bob ymgeisydd ofyn am gymeradwyaeth ei oruchwyliwr academiaidd cyn gwneud cais.</b></p>
<p><b>Cyllid</b></p>	
<p>Bydd y lleoliad yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a bydd yr arian a ddarperir yn cyfateb i'r gyfradd arian gyfredol a bennir gan UKRI ar gyfer lefel PhD. Bydd yn daladwy mewn un swm ar ddechrau'r lleoliad (er mwyn lleihau'r gwaith gweinyddu ariannol). Nod y broses dalu yw ategu strwythurau talu myfyrwyr PhD, h.y. mae WG yn talu'r brifysgol ac mae'r arian yn cael ei drosglwyddo i gyfrif y myfyriwr. Er mwyn osgoi unrhyw oedi cyn i fyfyrwyr gael eu taliadau, mae'n well peidio â rhoi stop ar dâl PhD y myfyriwr yn ystod y lleoliad. Dylid parhau i'w roi a bydd LIC yn ad-dalu'r brifysgol am yr amser pan nad yw'r myfyriwr yn gwneud gwaith ymchwil. <b>Sylwer: nid ydym yn talu myfyrwyr yn uniongyrchol</b></p>	
<p><b>Cyswllt</b></p>	
<p><b>Enw:</b></p>	<p>Stephany Aymerich (Rheolwr Ymchwil ac Ymgysylltu Academiaidd) drwy <a href="mailto:ResearchPlacements@llyw.cymru">ResearchPlacements@llyw.cymru</a></p>
<p><b>Y broses ymgeisio</b></p>	
<p>Dylech anfon CV a llythyr eglurhaol at Stephany Aymerich. <b>SYLWER: Rhaid i bob ymgeisydd gadarnhau bod ei oruchwyliwr academiaidd wedi rhoi caniatâd iddo ymgymryd â'r lleoliad</b></p> <p>Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, a bod angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o raglen y lleoliad, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os byddwch yn llwyddiannus, cysylltwch â Stephany Aymerich ar <a href="mailto:ResearchPlacements@llyw.cymru">ResearchPlacements@llyw.cymru</a> cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.</p>	